CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER 16EG TACHWEDD 2022 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan - Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), y Cyng. J. Simmonds (Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

R. Tyler (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), M. Lloyd (Pennaeth Seilwaith), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), J. Roberts-Waite (Rheolwr Cydgysylltu Strategol), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), P. Griffiths (Rheolwr y Strategaeth Mannau Gwyrdd a Mynwentydd) ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol i siarad ar yr Hysbysiad o Gynnig: Y Cynghorwyr J. Reed a J. Jones (Ward Ynys-ddu) a Mrs J. Jones (preswylydd lleol).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, a byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, heblaw am drafodaethau'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w weld.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION – 19eg HYDREF 2022

Nodwyd bod y Cynghorydd E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad) yn bresennol yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2022.

> PENDERFYNWYD i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Hydref 2022 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan y 22ain Mawrth 2023.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

5. HYSBYSIAD O GYNNIG – AIL-WERTHUSO PENDERFYNIAD Y CABINET O'R 9FED CHWEFROR 2022 – GWELLA PRIFFORDD Y B4251 YNYS-DDU I WYLLIE

Ystyriwyd yr Hysbysiad o Gynnig, fel y nodir ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad, er mwyn gwneud argymhelliad priodol. Nododd y Cabinet fod yr Hysbysiad o Gynnig wedi'i dderbyn oddi wrth y Cynghorwyr J. Reed a J. Jones ac fe'i cefnogwyd gan y Cynghorwyr K. Etheridge, A. Farina-Childs, B Owen, a N. Dix. Nododd y Cabinet hefyd fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 26ain Hydref 2022 a chafodd gefnogaeth y mwyafrif oedd yn bresennol.

Anerchodd y Cynghorydd J. Jones y Cabinet a chanolbwyntiodd ar resymau pam y dylid ailosod goleuadau nos ar droadau ffordd Wyllie. Gofynnodd y Cynghorydd J. Jones i'r Cabinet ystyried y 32 digwyddiad a gofnodwyd rhwng 1991 a 2021 a'r 3 digwyddiad ychwanegol sydd wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf. Dywedodd y Cynghorydd J. Jones nad oedd unrhyw gyfeiriad at oleuadau stryd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 9fed Chwefror 2022 neu yn adroddiad AMEY ac o'r herwydd roedd yn teimlo bod y Cabinet wedi ei atal rhag gwneud penderfyniad gwybodus. Gofynnodd y Cynghorydd J. Jones i'r Cabinet ystyried yr Hysbysiad o Gynnig a chefnogi'r cais i gael ail-werthusiad diogelwch annibynnol o ran y troadau ffordd Wyllie.

Anerchodd y Cynghorydd J. Reed y Cabinet a defnyddiodd luniau i ddangos y ffordd dan sylw a'r ffens ffiniol. Gofynnwyd i'r Cabinet nodi nad oedd adroddiad diogelwch AMEY yn argymell gosod ffens gyswllt cadwyn, a nodwyd yn adroddiad y Cabinet fel y dull diogelu mwyaf priodol ar gyfer y rhan hon o'r ffordd ac yn unol â safonau dylunio perthnasol, gallai leihau'r risg y bydd cerbydau'n gadael y ffordd ac amddiffyn cerddwyr. Fodd bynnag, gosodwyd ffens ffin yn unig, ac roedd y Cynghorydd J. Reed o'r farn nad yw hyn yn darparu'r un lefel o amddiffyniad i ddefnyddwyr y ffordd fel y byddai System Atal Cerbydau (SAC).

Yna cyfeiriwyd at adroddiad AMEY ac er iddo ddweud y byddai SAC yn anghymesur i'r buddion y byddai'n eu cyflawni, cafodd y Cabinet wybod bod 3 damwain arall wedi bod eleni ar droadau ffordd Wyllie, lle mae'r tri cherbyd wedi gadael y ffordd gerbydau. Gofynnodd y Cynghorydd J. Reed i'r Cabinet ystyried pam fod ffyrdd tebyg i droadau ffordd Wyllie o ran cyflymder a thopograffi ledled y fwrdeistref â SAC wedi'i gosod, ond nid troadau ffordd Wyllie.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Reed i'r Cabinet gefnogi'r teulu Jones a chymunedau lleol pryderus drwy argymell ailasesu'r ffordd a gosod System Atal Cerbydau mewn mannau strategol ar hyd y ffordd beryglus hon.

Mynegodd yr Arweinydd gydymdeimlad â Mrs J. Jones ar golled drasig ei merch.

Fe wnaeth Mrs J. Jones, mam Ms L. Jones, a gollodd ei bywyd mewn damwain ar droadau ffordd Wyllie ym mis Hydref 2019 annerch y Cabinet a manylu ar yr amgylchiadau a'r amodau ffyrdd a arweiniodd at farwolaeth ei merch. Amlinellodd ardaloedd lle'r oedd yn credu nad oedd ymgynghoriad priodol wedi digwydd, ac anghywirdebau yr oedd hi'n teimlo bod angen mynd i'r afael â nhw, gan nad oedden nhw wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2022.

Dywedodd swyddogion bod y Cabinet wedi derbyn manylion yr adroddiad diogelwch annibynnol a gafodd ei gomisiynu a'i gynnal gan AMEY Consulting ar gyfer y rhan o'r briffordd rhwng Ynys-ddu a Switchgear. Roedd y rhain wedi'u nodi'n glir yn adroddiad y Cabinet o'r 9fed Chwefror. Dywedodd y Swyddog bod holl argymhellion yr adroddiad wedi eu hystyried, a'r rhai angenrheidiol wedi'u gweithredu yn dilyn adolygiad o ganfyddiadau'r adroddiad.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar nifer o faterion ac ymatebodd y Swyddog i'r pwyntiau a godwyd. Cafodd y Cabinet gyngor bod pyst concrit a physt metel ill dau yn cydymffurfio â manylebau priffyrdd. Gwnaed penderfyniad dirprwyedig Swyddog, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet, i ddefnyddio pyst metel oherwydd yr amser paratoi hir ar gyfer y pyst concrit. Cydnabuwyd y gallai trafodaeth bellach gyda'r teulu fod wedi digwydd.

Cafwyd cyngor pellach gan y Cabinet yn dilyn adolygiad o'r adroddiad diogelwch mai'r ymyrraeth fwyaf buddiol a nodwyd oedd gostwng terfyn cyflymder y ffordd i 40mya fel yr argymhellwyd gan yr ymgynghorydd diogelwch. Nid yw cymariaethau i ffyrdd eraill yn ystyrlon gan fod gan bob un ei nodweddion unigryw ei hun sydd angen eu hystyried. Nodwyd bod gan awdurdod hefyd Bolisi Atal Cerbydau a ddefnyddir i benderfynu a oes angen System Atal Cerbydau (SAC) ac nid oedd hyn yn argymell SAC oherwydd ei fod wedi sgorio fel blaenoriaeth ganolig yn unig, fel y manylir yn adroddiad y Cabinet. Amlygodd yr adroddiad diogelwch ymhellach y gall gosod SAC ei hun achosi perygl; mae hyn oherwydd ei fod wedi'i gynllunio a'i brofi i ddelio â gwrthdrawiad ar ongl benodol ar gyflymder penodol. Gall defnyddio radiysau arbennig o dynn achosi i'r ongl gwrthdrawiad fod yn llawer rhy serth a fydd wedyn yn dod yn berygl ynddo'i hun i deithwyr mewn cerbyd sydd allan o'u rheolaeth.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod yna ganllawiau cenedlaethol a gofynion deddfwriaethol y mae'n rhaid eu cyflawni fel awdurdod priffyrdd, a nodwyd, yn dilyn yr adolygiad o'r adroddiad diogelwch, mai'r ymyrraeth fwyaf buddiol a nodwyd oedd lleihau terfyn cyflymder y ffordd i 40mya, fel yr argymhellwyd gan yr ymgynghorydd diogelwch. Awgrymodd y Prif Weithredwr, gan fod prif nodweddion y ffordd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, y gallai'r Cabinet ystyried ei bod yn briodol comisiynu asesiad diogelwch annibynnol pellach o'r ffordd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei symud a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD cefnogi'r hysbysiad o gynnig i'r graddau y ceir adroddiad diogelwch ffyrdd annibynnol pellach ar y B4251 rhwng Ynys-ddu a Switchgear.

6. ADOLYGIAD GOLEUADAU STRYD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar adolygiad lefel uchel o oleuadau stryd a gynhaliwyd ynghylch defnyddio Goleuadau LED a Goleuadau Nos Rhannol, a gyflwynwyd yn llawn ar draws y Fwrdeistref Sirol ym mis Chwefror 2021 a'r Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd sydd wedi cael ei ddatgan gan y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi adborth ac argymhellion i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu

Amgylchedd a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 25ain Hydref 2022 ac yn gofyn am benderfyniad Cabinet ar strategaeth goleuadau stryd y dyfodol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 26ain Hydref 2022 gan gynnwys yr argymhellion awgrymedig a amlinellwyd yn adran 10 yr adroddiad.

Nododd y Cabinet, er mwyn cwrdd â heriau'r ymrwymiadau lleihau carbon a chostau ynni cynyddol, ym mis Mai 2018 argymhellwyd gosod goleuadau LED a gweithredu Strategaeth Goleuadau Nos Rhannol gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd. Cafodd hyn ei gymeradwyo wedyn gan y Cabinet a'i gyflwyno ar draws y Fwrdeistref Sirol rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2021 ac mae'r system wedi bod yn weithredol ers hynny gyda seilwaith LED llawn a Goleuadau Nos Rhannol rhwng hanner nos a 5.30am. Mae'r strategaeth wedi arwain at arbedion carbon o tua 2836 tunnell fetrig y flwyddyn yn ogystal ag arbedion osgoi costau sylweddol/dyfodol fel y manylir yn Adran 8 o adroddiad y Swyddog.

Cyfeiriwyd at Adran 5.5 o adroddiad y Swyddog a darparwyd eglurhad mewn perthynas â nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Awdurdod. Yn dilyn gweithredu'r newid i oleuadau stryd LED a'r polisi gostyngiad i oriau gweithredu goleuadau stryd, derbyniwyd cyfanswm o 316 o gwynion gan drigolion CBSC, sy'n cyfateb i 0.18% o drigolion. Nodwyd bod Rheolwyr Priffyrdd ac Uwch Swyddogion Heddlu Gwent yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu ystadegau trosedd yn ystod oriau gweithredu llai'r goleuadau stryd, ac mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r heddlu ofyn am newid nosweithiol dros dro ble mae ymchwiliadau trosedd ar y gweill neu lle mae isadeiledd teledu cylch cyfyng yn cael ei gyflwyno. Hyd yn hyn nid oes cydberthyniad rhwng yr achosion o droseddu a'r polisi gostyngiad i oriau gweithredu goleuadau stryd.

Cafodd y System Rheoli Canolog a'r pylu eu manylu a nododd y Cabinet y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i weithredu, ac roedden nhw'n ymwybodol na fyddai 7,400 o lusernau presennol yn cydweddu, ac y byddai angen eu huwchraddio ar gost o £1,645,000. Esboniwyd y costau sy'n gysylltiedig â gorsafoedd sylfaen ychwanegol yn ogystal â'r ffi flynyddol o ran cynnal a chadw, a fyddai'n rhoi cost gosod cyffredinol y System Rheoli Canolog i tua £3.5m.

Nododd y Cabinet yr opsiynau adolygu o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol fel y manylwyd yn adran 5.14 o'r adroddiad. Cafodd yr opsiynau a archwiliwyd gan Swyddogion, a arweiniodd at wahanol effeithiau carbon ac ariannol, eu hamlinellu ac argymhellwyd bod y Cabinet yn cefnogi'r polisi presennol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei symud a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Dylid ystyried sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

2. Mae'r polisi goleuadau stryd presennol yn cael ei gynnal.

3. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'u cydweithwyr yn Heddlu Gwent yn unol â'r protocol presennol a chytunedig sy'n ymwneud â throseddau.

4. Cydnabyddir materion sy'n ymwneud ag ofn trosedd gan yr Awdurdod, a phan ystyrir bod y materion hyn yn arwyddocaol cynigir ymateb unigol trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a fydd yn cynnwys nifer o ymyriadau ehangach, megis cyngor ac arweiniad diogelwch.

7. CARTREFI CAERFFILI – Y RHAGLEN DDATBLYGU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r uchelgais o 400 o gartrefi newydd, y cytunwyd arno ym mis Ionawr 2020, a chael cytundeb i symud i gam nesaf y broses ddatblygu, a thrwy hynny ymgymryd â gwaith ymchwilio safle manwl er mwyn penderfynu a oedd y safleoedd a nodir yn yr adroddiad yn gyflawnadwy ac yn hyfyw.

Nododd y cabinet, ar ôl sicrhau cyllid, i gefnogi cyflwyno dau gynllun peilot hynod arloesol yn Nhrecenydd a Threthomas drwy Raglen Tai Llywodraeth Cymru, mae'r pwyslais bellach wedi bod i ddysgu o weithredu'r ddau gynllun er mwyn llywio'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd yn Nhŷ Darran a hen safle Oakdale ar raddfa a chyflymder. Nodwyd bod safleoedd Tŷ Darran a chyn Ysgol Gyfun Oakdale wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol a byddai adroddiadau, yn manylu ar drefniadau'r contract, y cynllun costau, strategaeth farchnata a strategaeth fasnachol a chynllun gwerth cymdeithasol, yn dilyn maes o law. Y ffocws nawr yw nodi safleoedd datblygu posibl sy'n dilyn ymlaen o Dŷ Darran a hen safle Ysgol Gyfun Oakdale, a thrwy hynny sicrhau bod cyflenwad parhaus o safleoedd datblygu'n cael eu cludo drwy'r system i helpu bodloni'r ymrwymiad o 20,000 o gartrefi fforddiadwy carbon isel newydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad yn cynnwys y 5 safle nesaf sydd wedi'u nodi yn dilyn ymarfer cadarn i benderfynu pa rai sydd fwyaf addas, gan ystyried yr ardal y gellid ei datblygu, nifer yr unedau y gellir eu cynnwys ac unrhyw gyfyngiadau hysbys. Amlygwyd, yn amodol ar gael cymeradwyaeth, y byddai ymchwiliadau safle manwl pellach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau addasrwydd y safleoedd arfaethedig ar gyfer datblygiad preswyl.

Gofynnwyd am eglurhad ar chwyddiant mewn perthynas â datblygu cartrefi newydd. Cadarnhaodd y Swyddog bod chwyddiant yn mynd i gael effaith uchel ar y Cyfrif Refeniw Tai gan y bydd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar gyflawni, deunyddiau a llafur. Cafodd y Cabinet wybod y bydd Adolygiad Blynyddol y Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd, a fydd yn manylu ymhellach ar effaith pwysau chwyddiant o fewn y Cyfrif Refeniw Tai. Cafodd y cabinet wybod ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno cymal amrywiad yn y cytundeb grant er mwyn adlewyrchu pwysau cynyddol chwyddiant mewn perthynas ag adeiladu newydd.

Cyfeiriwyd at yr ymatebion i'r ymgynghoriad a fanylir yn adroddiad y Swyddog a chadarnhawyd yr ymgynghorwyd ag aelodau'r Wardiau Lleol ar yr holl safleoedd a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei symud a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Ystyried y cynnig i gyflwyno cyfres o safleoedd datblygu Cartrefi Caerffili sy'n cynnig cyfraniad cadarnhaol at benderfyniad polisi'r Cyngor i gynyddu stoc tai fforddiadwy'r Cyngor, a chynnig barn.

2. Cymeradwyo'r cynnig i gomisiynu ymchwiliadau safle dwys a chychwyn gwerthusiad datblygu manwl ar gyfer pob safle.

8. DATBLYGIAD TŶ DARRAN – CYTUNDEB GWASANAETHAU CYN ADEILADU GAN GYNNWYS GWAITH GALLUOGI

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni uchelgais di-garbon net ar gyfer cynllun 46 uned byw'n hwyrach yn hen Gartref Gofal

Tŷ Darran, Rhisga ac i gael cymeradwyaeth i ymrwymo i Gytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu gyda Wilmott Dixon trwy Gytundeb Fframwaith Adeiladu Cenedlaethol Sector Cyhoeddus. Gofynnodd yr adroddiad hefyd am gymeradwyaeth i ddechrau ymchwiliadau manwl ar y safle a gwaith galluogi ar safle Tŷ Darran, er mwyn i'r gwaith dymchwel a dargyfeirio carthffosydd ddechrau ym mis Ionawr 2023, gyda'r bwriad o ddechrau adeiladu ar y safle yn Hydref 2023, yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo Cytundeb Cyflawni, cynllun costau ac arfarniad hyfywedd manwl.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, fel yr Hyrwyddwr Cyfeillgar i Oed, yn falch iawn o weld y bydd cyfle i gyd-gynhyrchu gyda thrigolion y dyfodol wrth ddylunio mannau cymunedol y datblygiad hwn.

O ran lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd, darparwyd eglurhad am y cynlluniau Passivhaus a gyflwynwyd gan y Cyngor ac a ariannwyd gan Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru. Nododd y Cabinet mai nod y rhaglen hon oedd treialu dulliau adeiladu a deunyddiau newydd i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd, gostwng costau ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi.

Cafodd y Cabinet gyngor o ddiwygiad i'r adroddiad. Mae'r ffigur ar gyfer gwaith galluogi fel y'i dyfynnwyd yn 5.1.14, fodd bynnag mae ffigur y Cytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu wedi cynyddu i £673,748, sydd wedi arwain at gynnydd o £42,436 ac felly cyfanswm cost y Cytundeb Gwasanaethau Cyn-Adeiladu (gan gynnwys y gwaith galluogi) yw £1,150,888. Eglurwyd bod hyn yn bennaf oherwydd cais gan Gartrefi Caerffili i gynnwys ffioedd cyfreithiol ychwanegol a chostau wrth gefn.

Cafwyd eglurhad o'r budd o gael gwneuthurwr lleol yn rhan o'r datblygiad. Cynghorwyd y Cabinet ei fod wedi arwain at fuddion i'r economi gylchol trwy sicrhau bod y buddsoddiad mewn cartrefi newydd yn cynnig manteision a chyfleoedd ehangach i'r boblogaeth leol a'r gymuned.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei symud a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Ystyrir heriau a rhinweddau datblygu safle Tŷ Darran yn erbyn y galw am lety o'r fath a chynnig barn ar y cynigion i ddatblygu'r safle.

2. Cymeradwyo llofnodi cytundeb cyn-adeiladu gyda Willmott Dixon trwy Gytundeb Fframwaith Adeiladu Cenedlaethol Sector Cyhoeddus er mwyn sicrhau dymchwel yr adeilad presennol a dechrau'r gwaith galluogi ym mis Ionawr 2023.

9. ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH CAERFFILI 2022.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Adroddiad Bioamrywiaeth y Cyngor ar gyfer 2022 a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru. Cynghorwyd y Cabinet fod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Nodwyd, o dan adran 6(7) o'r Ddeddf bod yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus cyn diwedd 2019, a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn wedi hynny, cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maen nhw wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 25ain Hydref 2022.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd honno ac yn gweithredu fel gyrrwr ar gyfer sicrhau bod pob gwasanaeth yn ystyried bioamrywiaeth ac yn mynd ati i wella bioamrywiaeth wrth gynnal eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Cyfeiriodd y cabinet at adran 5.4 o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y camau gweithredu a'r prosiectau a ddarparwyd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chefnogaeth i grwpiau gwirfoddol, yn enwedig mewn perthynas â phlannu coed. Amlinellodd y Swyddog nifer o fentrau sy'n digwydd ar hyn o bryd a chynghorwyd y Cabinet fod trafodaethau yn digwydd gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent a Groundwork Wales. Amlinellwyd hefyd nifer o faterion yn ymwneud â nodi safleoedd addas i blannu coed.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd ei symud a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy gyfrwng Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Ystyried cynnwys yr adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd fel y manylir arnyn nhw yn Adran 11 o adroddiad y Swyddogion a chymeradwyo Adroddiad Bioamrywiaeth y Cyngor ar gyfer 2022, yn Atodiad 1, a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.21 p.m.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd 2022.

_____

CADEIRYDD